**Beirniadaeth Cystadleuaeth 353**

**Rhyddiaith Bl.5 a 6 – Ffrind Da**

**Beirniad: Megan Angharad Hunter**

**Beirniadaeth gyffredinol**

Am wledd! Y testun eleni oedd *Ffrind Da,* ac fe gefais fy rhyfeddu'n llwyr gan dros 120 o ddarnau gwych o ryddiaith. Mae rhywbeth arbennig ym *mhob darn*, ac mae gan bob cystadleuydd ddawn naturiol. Mae'n siom enfawr na allaf wobrwyo neu roi sylw i fwy o gystadleuwyr gan fod pob un yn haeddu clod, felly hoffwn bwysleisio y dylai *pob un* ohonynt barhau i sgwennu a datblygu eu dawn; mae llawer o awduron cyffrous y dyfodol ymysg y cystadleuwyr yma! Diolch o waelod calon i bawb am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd amlwg - roedd yn bleser ac yn fraint cael beirniadu'r gystadleuaeth hon.

Cefais fy llorio gan garedigrwydd yr holl gystadleuwyr wrth iddynt ymateb i'r testun. Roedd llawer o bortreadau annwyl o ffrindiau gorau a straeon llawn empathi am blant yn symud ysgol a gorfod gwneud ffrindiau newydd. Roedd yr amrywiaeth y straeon yn wych hefyd: roedd nifer o gystadleuwyr wedi dyfeisio straeon ffantasi a *sci-fi* cwbl wreiddiol a wnaeth fy nghipio i fydoedd dychmygol, anturiaethus, ac eraill wedi sgwennu straeon hyfryd o gynnil yn dangos y cysylltiad arbennig sydd rhwng pobl a'n hanifeiliaid anwes.

Felly, roedd y safon yn *eithriadol* o uchel, ac roedd yn anodd iawn i mi ddewis y deg gorau, heb sôn am y tri sydd wedi cyrraedd y brig!

**Y Goreuon:**

**Tarantymb**
Mae Tarantymb yn gwybod yn union sut i strwythuro stori a chreu naws sinistr. Mae pump ffrind yn mynd ar drip i Iwerddon, ond ar ôl storm ryfedd, maen nhw'n cael eu cario'n ôl mewn amser. Dyma stori gwbl wreiddiol a wnaeth gydio ynof i'n syth.

**Sponge Bob**
Dyma stori hwyliog am drip i Sbaen sy'n mynd o chwith. Mae defnydd perffaith o idiomau yma, a chymariaethau arbennig o wreiddiol fel *oedd y dŵr yn gynnes ac yn gloywi dan aur yr heulwen fry* a *Taflon nhw beli meddal at ei gilydd. Nôl ac ymlaen! Nôl ac ymlaen fel ffon pogo!* Wnes i fwynhau darllen stori Sbonge Bob yn arw - mae llawer o addewid yma.

**Sioncyn y Gwair**
Dyma stori syml ond hyfryd am gi ffyddlon sydd wedi'i strwythuro'n berffaith. Mae Sioncyn y Gwair yn awdur dawnus sy'n defnyddio disgrifiadau gwreiddiol a wnaeth gipio fy anadl ar brydiau, fel *arogli r awyr fel pe bai n darllen stori gudd ynddi.* Dyma awdur aeddfed sy'n llawn addewid.

**Mwg**
Mae Mwg yn gwybod yn union sut i sgwennu stori ysbryd; mae'r stori'n cydio'n syth, ac mae'r awdur wedi dewis ansoddeiriau'n ofalus i greu naws iasol drwyddi draw. Gwnaeth y stori i mi chwerthin hefyd; trwy'r ddeialog ddoniol, rydyn ni'n cael blas o berthynas fyw rhwng y ddwy ffrind: *yn slei bach mi wnaeth Megan dod y tu ol i Myfi a rhoi ei llaw oer ar ei hysgwydd. AAAAAAAAAAAAAAAAAAA! Megan mae r ysbryd wedi fy nal i!" Dechreodd Megan rowlio chwerthin wrth ail-adrodd be ddwedodd Myfi.*

Cefais fy synnu'n llwyr gan y diweddglo annisgwyl - dyma awdur addawol dros ben sydd efo dychymyg anhygoel.

**Welshaholic**
Dyma stori llawn dychymyg ac antur am blentyn o Batagonia a'i gysylltiad annisgwyl efo dewin y goedwig. Mae defnydd effeithiol iawn o onomatopeia yma e.e. *BWNFF!* a chymariaethau gwreiddiol fel disgrifio plant yn dilyn yr athrawes *fel morgrug bach yn mynd allan o'i dwll diogel*. Mae'r digweddglo'n addo mwy o straeon cyffrous i ni, felly gobeithio bydd Welshaholic yn parhau i'w sgwennu!

**Tim Caws**
Am ddychymyg! Cefais fy rhyfeddu'n llwyr gan stori *sci-fi* epig Tim Caws, ond mae yma neges bwysig hefyd am warchod y ddaear. Dyma stori sy'n mynd â ni ar antur ddoniol i blaned estron, yn ein cyflwyno ni i'r *Corcla* a *Heddliens.* Mae'r awdur hyd yn oed wedi dyfeisio iaith ddychmygol ar gyfer yr estroniaid! Dyma gystadleuydd cyffrous dros ben.

Roedd y cystadleuwyr canlynol hefyd yn agos iawn at y brig, felly llongyfarchiadau enfawr i:
**Clydach**
**Daisy Wells**
**Gwendolyn**
**Llygad y Dydd**
**Madi**
**Noddfa**
**Sos Coch**
**Anwen**

Ond, yn anffodus, dim ond tri cystadleuydd a allaf eu gwobrwyo.

**Waldo**
Dyma stori sy'n hoelio sylw'r darllenydd o'r frawddeg gyntaf un am *rhywbeth cwbl annisgwyl a guddiai o dan yr ysgol.* Mae'r stori *sci-fi* hon yn llawn gwreiddioldeb a dychymyg, ac mae'r awdur yn adeiladu tensiwn a gosod dirgelwch yn llwyddiannus dros ben. Mae'r cymeriadau'n fyw, y deialog yn llifo, a'r sgwennu'n fywiog ac yn llawn hiwmor, â phob gair yn haeddu ei le. Gwnaeth y diweddglo i mi chwerthin yn uchel! Felly, oherwydd y cyfuniad arbennig hwnnw o gynildeb crefftus, hiwmor a gwreiddioldeb, Waldo sy'n cipio'r **trydydd** safle i mi.

**Anghenfil Piws**
Dyma awdur aeddfed sy'n gwybod yn reddfol sut i strwythuro stori. Mae'r disgrifiadau manwl yn creu darluniau byw ym meddwl y darllenydd o'r frawddeg gyntaf un: *Ffrwydrodd Swyn allan drwy r drws gan achosi i fwy o baent bilio i ffwrdd.* Mae'r prif gymeriad hefyd yn grwn a chredadwy; mae'n amhosib peidio â chydymdeimlo efo Swyn a'i dyhead am ffrind.

Ar ben hynny, mae gan Anghenfil Piws hefyd ddychymyg gwych. Cefais fy synnu ar yr ochr orau gan y tro yn y stori pan mae Swyn yn dod o hyd i bowdwr hudolus yn y goedwig y tu ôl i'r ysgol. Mae'r awdur yn ymdrin â'r testun mewn ffordd wreiddiol ac aeddfed, a'r neges na ddylid derbyn cyfeillgarwch ffals yn un bwysig i bawb ei chofio. Felly, mae Anghenfil Piws yn llawn haeddu'r **ail** safle.

**Brehines yr Eira**
Ond yn cipio'r wobr **gyntaf** mae Brenhines yr Eira, awdur aeddfed arall sydd hefyd yn deall y grefft o strwythuro stori i'r dim. Stori am ddau ffrind sy'n mwynhau gofalu am Goedwig Cwm Caredig ydi hon, ond ar ôl dod o hyd i wy dirgel a chyfarfod â gwarchodwr hudolus y goedwig, maen nhw'n cael eu gwobrwyo am eu gwaith â'r fraint o fod yn warchodwyr hefyd. Dyma stori bwysig a chyfredol sy'n erfyn arnom i drin byd natur fel ffrind da.

Mae'r brawddegau'n gain a chelfydd, gan wneud i'r stori lifo'n hawdd, ac felly mae'r stori'n llawn disgrifiadau sy'n creu naws fendigedig, fel y disgrifiad hwn: *Roedd Macs yn siŵr ei fod yn gweld*

*golau bach yn pefrio o gwmpas yr wy, ond efallai mai ei lygaid yn addasu i dywyllwch y goedwig ydoedd.*

Dyma awdur sydd nid yn unig yn gwybod sut i adeiladu tensiwn a sgwennu'n hyfryd o gynnil (dau sgil anodd y mae llawer o awduron proffesiynol yn cael trafferth eu meistroli, hyd yn oed), ond sydd hefyd yn meddu ar ddychymyg byrlymus. Yn wir, anghofiais ar brydiau wrth ddarllen y stori hon mai darn wedi'i sgwennu gan blentyn ydyw. Llongyfarchiadau mawr i Frenhines yr Eira - gobeithiaf yn wir caf ddarllen mwy o'u gwaith yn y dyfodol.